# ASESIAD O EFFAITH AR Y GYMRAEG

**Cynnig i aildrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac**
**Ysgol Gynradd Goffa** Saltney Wood
**Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor ysgol a gynhelir newydd a fydd yn gweithredu ar y ddau o safleoedd presennol nes bydd adeilad newydd wedi'i gymeradwyo a'i adeiladu.**

## Haf 2025

## A. CYFLWYNIAD

Ar draws ystâd yr ysgol, mae niferoedd y disgyblion yn gostwng ac mae angen buddsoddi mwy mewn adeiladau hŷn i'w cadw mewn cyflwr da. Dyma'r achos gyda'r ysgolion cynradd cymunedol yn ardal Saltney a rhai o'r rhesymau y tu ôl i'r cynnig.

Mae'r Cyngor yn ceisio barn ynglŷn â chynnig i aildrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

Mae'r Cyngor yn bwriadu aildrefnu'r ysgol drwy:

- Gau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood
- Agor ysgol gynradd gyfunol ar y ddau safle presennol i ddechrau, nes caiff adeilad newydd ei gymeradwyo a'i godi
- Agor Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg newydd â lle i 315 o ddisgyblion ar dir Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

Mae mwy o wybodaeth am y cynnig ar gael yn y ddogfen Ymgynghori

**Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal o Dydd Mawrth 3 Mehefin 2025 i ddydd Gwener 18 Gorffennaf 2025.**

Mae'r ddogfen hon yn asesu'r effaith y gallai'r cynnig ei chael ar y Gymraeg fel rhan o ofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a Safonau'r Gymraeg.

Mae Asesiad o Effaith integredig hefyd ar gael ar gyfer y cynnig hwn. Mae Asesiadau o Effaith yn ddogfennau gwaith a fydd yn cael eu diweddaru yng ngoleuni gwybodaeth ac adborth o'r broses ymgynghori.

## B. PWRPAS YR ASESIAD

Mae Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn nodi effeithiau posibl ar y Gymraeg pan fydd cynnig i newid trefniadaeth ysgolion wedi'i gyflwyno.

Nod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yw nodi effeithiau cadarnhaol, niwtral a negyddol posibl, a lle bo modd, amlinellu camau gweithredu a allai wella neu gynnal effaith gadarnhaol neu niwtral neu a allai leihau neu ddileu effaith negyddol.

## C. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG (CSCA) 2022-2032

Mae Cyngor Sir y Fflint yn credu bod yr iaith Gymraeg yn eiddo i bawb. Mae Cynllun Strategol Addysg y Gymraeg yn Sir y Fflint yn offeryn strategol hirdymor i ni gyfrannu at Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a chynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl mewn ysgolion ac ymestyn y sgiliau Cymraeg hynny i'r gymuned ehangach, gyda'r nod o greu sir a gwlad sy'n cynyddu i fod yn fwy dwyieithog. Rydym ni'n ceisio cael pobl o bob oedran i wella eu sgiliau Cymraeg a bod ganddynt y gallu i ddefnyddio'r rhain yn hyderus gyda'u teuluoedd ac yn eu mannau dysgu.

Rydym hefyd yn ymroddedig i gefnogi, ymestyn a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn y gymuned gyfan a chynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' Llywodraeth Cymru, i ddatblygu dysgwyr sy'n gwbl ddwyieithog (h.y. yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg).

CSCA yw ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg yn ein hardal

Y prif egwyddorion yw:

- Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol a'r blynyddoedd cynnar ar gael yn hawdd ar draws yr awdurdod i gefnogi ac annog rhieni/gofalwyr i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant.
- Mae addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bob dysgwr o fewn pellter teithio rhesymol i'w cartref (yn unol â'n dyletswyddau a nodwyd o dan adran 10 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.)
- Mae pob dysgwr yn y sector cyfrwng Cymraeg yn cael eu hannog i drosglwyddo'n llwyddiannus ar bob pwynt pontio → e.e. grwpiau teulu/plant bach → cylch chwarae → addysg gynnar → dosbarth meithrin rhan amser → ysgol gynradd → ysgol uwchradd.
- Mae dysgwyr Cymraeg iaith gyntaf mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (cynradd ac uwchradd) yn cyflawni'r canlyniadau uchaf posibl yn y Gymraeg.
- Mae dysgwyr Cymraeg ail iaith o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn cael eu cefnogi a'u hannog i gael mynediad i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg trwy raglen drochi bwrpasol.
- Mae dysgwyr Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (cynradd ac uwchradd) yn cyflawni'r canlyniadau uchaf posibl yn y Gymraeg.
- Mae cydweithio effeithiol yn bodoli gyda phartneriaid, asiantaethau a gwasanaethau eraill i hyrwyddo a chynyddu dwyieithrwydd mewn cyd-destun addysgol a chymdeithasol.
- Mae dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cyfle ieithyddol cyfartal.
- Mae pob dysgwr yn dod yn hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae cynnydd ac ymrwymiad i ddatblygu'r Gymraeg ar draws pob agwedd o'r Cyngor yn cael ei ddathlu.

Gellir gweld CSCA 2022-2032 yma:
https://www.flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/Welsh-in-Education/Flintshire-WELSH-IN-EDUCATION-STRATEGIC-PLAN-2022-2032.pdf

## D. ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG YN SIR Y FFLINT

Yn Sir y Fflint, mae pum ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, ac un ysgol uwchradd:

Cynradd

- Ysgol Gymraeg Glanrafon, Yr Wyddgrug – yn cynnwys Adnodd Generig CA2
- Ysgol Gymraeg Terrig, Treuddyn
- Ysgol Gymraeg Gwenffrwd, Treffynnon
- Ysgol Gymraeg Mornant, Gwespyr Picton
- Ysgol Gymraeg Croes Atti, Y Fflint a Shotton

Uwchradd

- Ysgol Gymraeg Maes Garmon, Yr Wyddgrug

## E. BUDDSODDI MEWN ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG

Dros y blynyddoedd diwethaf ac ar gyfer y dyfodol, mae'r Cyngor yn ymdrechu i ehangu a buddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y Sir er mwyn sicrhau bod digon o leoedd i ddisgyblion Sir y Fflint gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg os ydynt am ei gael.

Ar hyn o bryd rydym yn adeiladu Ysgol Gymraeg yn ardal y Fflint i gymryd lle'r ysgol bresennol - Ysgol Croes Atti, a bydd yn agor yn nhymor yr Hydref 2025.

Mae gan Sir y Fflint adnodd cyffredinol ar gyfer disgyblion oed cynradd sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn seiliedig o fewn

Un o'i ysgolion cyfrwng Cymraeg y nodir uchod. Mae'r adnodd hwn yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ag ystod o anghenion dysgu. Dirprwywyd cyllid hefyd i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddarparu adnoddau ychwanegol i ddisgyblion o fewn CA3/4/5.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae rhaglen drochi bwrpasol ar gyfer disgyblion o ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n dewis trosglwyddo i'n hysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg (Trochi), yr ydym yn ei datblygu fel RHAN o ganlyniadau'r CSCA.

Fel rhan o'r Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer cam nesaf cyllid isadeiledd strategol y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, rydym wedi nodi un prosiect yn y rhaglen waith gyfredol ar gyfer addysg Cyfrwng Cymraeg.

Ein cynlluniau twf cyfrwng Cymraeg yn y rhaglen hon yw ysgol ardal cyfrwng Cymraeg newydd wedi'i lleoli yn ardal Bwcle/Mynydd Isa. Bydd y prosiect hwn yn creu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd gyda lle i 150 o ddisgyblion llawn amser, ynghyd â lle i 30 mewn dosbarth meithrin i sicrhau darpariaeth gofal plant estynedig. Mae'r cynnig yn bwriadu cynnwys integreiddio Mudiad Meithrin ar y safle a bydd darpariaeth gychwynnol dosbarth Meithrin a dosbarth Derbyn.

Bydd cyfleoedd pellach i fuddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu hystyried yn unol ag amcanion strategol y Cyngor.

## F. CYFRANNU AT Y CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Mae saith Canlyniad y mae'r CSCA yn anelu at eu cyflawni:

- **Canlyniad 1:** Mae mwy o blant meithrin/tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Canlyniad 2:** Mae mwy o blant derbyn/pum mlwydd oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Canlyniad 3:** Mae mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt drosglwyddo o un cam addysg statudol i'r llall.

- **Canlyniad 4:** Mae mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Canlyniad 5:** Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.
- **Canlyniad 6:** Cynnydd yn narpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a nodir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
- **Canlyniad 7:** Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gan fod addysg yn y ddwy ysgol gynradd yn Saltney yn cael ei chyflwyno drwy gyfrwng y Saesneg, ni fydd y cynnig hwn yn cefnogi amcanion CSCA y Cyngor yn uniongyrchol.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ers 2020, gyda dros £20 miliwn yn cael ei ddefnyddio ar ysgol gynradd, estyniadau i un arall ac adnewyddu un arall eto. Yn ogystal, mae cyllid wedi darparu nifer o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg i ddarparu hygyrchedd i'r Gymraeg o oedran ifanc.

Er bod y Cyngor yn cefnogi'r ymgyrch i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, mae ganddo gyfrifoldeb hefyd i ddarparu cyfleoedd o ansawdd uchel i ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg.
Rhagwelir na fyddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar y ddarpariaeth Gymraeg yn y Sir gan na fydd nifer y lleoedd i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg llawn amser yn cael eu heffeithio.

## G. Y BROSES YMGYNGHORI

O dan God Trefniadaeth Ysgolion 2018, mae paragraff 1.4 yn nodi "Pan fydd cynigion yn effeithio ar ysgolion lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu (ar gyfer pynciau heblaw Cymraeg) drwy'r amser neu beth o'r amser, dylai awdurdodau lleol gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg."

Mae ein dogfen ymgynghori yn gwahodd safbwyntiau ar y cynnig hwn. Fel rhan o'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor hefyd yn ceisio eich barn ar sut mae ymgyngoreion yn teimlo y gallai'r cynnig effeithio ar y Gymraeg a datblygiad posibl yn y maes hwn.

Mae asesiadau o effaith yn ddogfennau gweithredol a gellir eu diweddaru drwy gydol y broses statudol. Bydd adborth gan ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael ei ddefnyddio i lywio'r asesiadau o effaith ymhellach.

Mae'r asesiad hwn wedi'i lunio gan ddefnyddio gwybodaeth o God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018, Cynllun Strategol Addysg Sir y Fflint (2022 – 2032) ac amrywiol bolisïau ac astudiaethau achos ar safonau'r Gymraeg mewn perthynas â llunio polisïau.

*Prif nod y safonau llunio polisi yw sicrhau bod sefydliadau'n rhoi ystyriaeth gydwybodol i'r Gymraeg wrth benderfynu sut y byddant yn cyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus.*
https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/cymorth-ac-adnoddau/sefydliadau-cyhoeddus/penderfyniadau-polisi

Mae ein holl ddogfennau o ran yr ymgynghoriad hwn wedi'u cyhoeddi ar ffurf copi caled, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os bydd arnoch angen copi papur o'r ddogfen hon, neu gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol, er enghraifft Braille neu brint bras, neu os oes arnoch chi angen cymorth i ddehongli'r

ddogfen mewn iaith arall, cysylltwch â’r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar **01352 704018, 01352 704014 or 01352 702188**, neu dros e-bost saltneyconsultations@siryfflint.gov.uk.

## H. PROFFIL SIARADWYR CYMRAEG YN SIR Y FFLINT

Fel awdurdod lleol, rydym yn cydnabod bod gennym gyfrifoldeb a dyletswydd fel arweinydd cymunedol i hyrwyddo, cefnogi a diogelu’r Gymraeg er budd cenedlaethau presennol a’r dyfodol.

**Tabl: Gwybodaeth o'r Gymraeg (2021)**
**Ffynhonnell: Chyfrifiad 2021**

| | **Sir y Fflint** | | **Cymru** |
|---|---|---|---|
| | **Cyfrifiad 2021** | | **Cyfrifiad 2021** |
| | **Nifer** | **%** | **%** |
| Pawb dros 3 oed | 155,000 | - | - |
| Dim gwybodaeth o'r Gymraeg | 126,015 | 81.3% | 74.8% |
| Yn deall Cymraeg llafar yn unig | 7,750 | 5% | 5.2% |
| Pawb sy’n siarad Cymraeg | 17,980 | 11.6% | 17.8% |
| Siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg | 21,235 | 13.7% | 20% |

Fel yr amlinellir yn Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg y Cyngor, ein targed yn ystod y pum mlynedd blaenorol oedd cefnogi’r cynnydd yn nifer y boblogaeth yn Sir y Fflint sy’n nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Ein dyhead yn y tymor hirach yw cynyddu nifer a chanran siaradwyr Cymraeg y sir er mwyn creu sir ddwyieithog yn y pen draw a chynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni ei darged o un filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Mae addysg cyfrwng Cymraeg, boed ar ffurf darpariaeth cyfrwng Cymraeg lawn drwy ysgolion Cymraeg, neu addysgu’r Gymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, yn cefnogi’r nod hwn yn uniongyrchol ac yn cysylltu’r strategaeth hon yn gynhenid â’r Cynllun Strategol Addysg

## I. EFFEITHIAU A MESURAU LLINIARU

Mae safonau’r Gymraeg wrth lunio polisïau yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith penderfyniadau eu polisïau ar y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a hyrwyddo’r defnydd ohoni.

Nodwyd yr effeithiau posibl canlynol mewn perthynas â'r cynnig hwn.

| **Meini prawf** | **Effaith Bosibl** |
|---|---|
| Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg | Niwtral |
| **Eglurhad a Chamau Lliniaru** | |
| O ran yr ymgynghoriad, mae'r holl ddogfennau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn rhoi'r opsiwn i bobl ddewis pa iaith i'w defnyddio er mwyn ymgysylltu â'r broses. Yn ogystal, mae wedi'i gwneud yn glir bod croeso i ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg hefyd, a lle bo angen atebion byddant yn cael eu darparu yn yr un iaith. | |

| | |
|---|---|
| Bydd gweithredu'r cynnig hefyd yn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ysgolion sy'n rhan o'r cynnig yn cyflwyno eu cwricwlwm drwy gyfrwng y Saesneg, sy'n cynnwys gwersi, pynciau a gweithgareddau Cymraeg. Ar ôl ei weithredu, bydd yr ysgol cyfrwng Saesneg newydd wedi ymrwymo i ddarparu'r un cyfleoedd dysgu Cymraeg i ddysgwyr ag y maent yn eu cael ar hyn o bryd, ac yn yr un modd â phe na bai'r cynnig yn cael ei weithredu. | |
| **Meini prawf** | **Effaith Bosibl** |
| Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg | Niwtral |
| **Eglurhad a Chamau Lliniaru** | |
| Fel uchod, mae gan bobl gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar yr ymgynghoriad. Bydd cyfleoedd yn ystod y diwrnod ysgol hefyd yr un fath â phe na bai'r cynnig yn cael ei weithredu.<br><br>Yn ogystal, gellir agor y cyfleusterau modern a ddarperir gan y cynnig i'r gymuned, gan roi mannau newydd iddynt ymgymryd ag amrywiol weithgareddau. Gellid defnyddio gweithgareddau o'r fath i gyflwyno dosbarthiadau dysgu Cymraeg i oedolion, dosbarthiadau cynhwysiant digidol Cymraeg a gweithgareddau chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod y rhain yn effeithiau cadarnhaol posibl, nid yw'r holl weithgareddau atodol hyn yn hysbys ar hyn o bryd ac felly effaith bosibl 'niwtral' a ragwelir. | |

## J. CASGLIAD

Mae'r Cyngor yn gweithio'n barhaus i fynd i'r afael â'i amcanion CSCA ac yn eu hystyried wrth ddatblygu cynigion yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae hyn er mwyn lliniaru unrhyw gamau gweithredu negyddol posibl ar yr Iaith Gymraeg a pharhau i hyrwyddo a chodi proffil addysg cyfrwng Cymraeg i'n holl ddysgwyr.

Gan fod y cynnig hwn yn ymwneud ag ad-drefnu addysg gynradd yn ardal Saltney yn unig, rydym yn cydnabod y bydd cyfraniadau llai ar gyfer targedau'r Cyngor. Fodd bynnag, gydag unrhyw ysgol newydd daw cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr amgylchedd dysgu a'r gymuned ehangach.